



Mick Antoniw AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad  
Senedd Cymru

[SeneddDCC@senedd.cymru](mailto:SeneddDCC@senedd.cymru)

22 Mehefin 2020

Annwyl Gadeirydd

Mae'n bleser gennyf roi gwybod ichi fod dogfen ymgynghori sy'n ceisio sylwadau ar fersiwn ddrafft Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwysu) 2020 wedi cael ei chyhoeddi heddiw ar wefan Llywodraeth Cymru.

Cyn pob un o etholiadau cyffredinol y Senedd gwneir Gorchymyn Anghymhwysu sy'n dirymu'r Gorchymyn blaenorol ac sy'n nodi rhestr wedi'i diweddarau o swyddi sy'n anghymhwysu.

Byddai Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwysu) 2020 yn dynodi swyddi y byddai eu deiliaid wedi eu hangymhwysu rhag bod yn Aelodau o'r Senedd (ond nid rhag bod yn ymgeisydd i fod yn Aelod o'r Senedd). Mae'r swyddi arfaethedig wedi eu disgrifio yn yr Atodlen i'r Gorchymyn drafft.

Mae swyddi eraill sy'n anghymhwysu, ynghyd â chategoriâu o berson sydd wedi eu hangymhwysu rhag bod yn Aelodau o'r Senedd, wedi eu rhagnodi gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Dylai'r Gorchymyn drafft gael ei ddarllen gyda'r darpariaethau perthnasol.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio sylwadau ynglŷn â pha swyddi y dylid eu cynnwys yn y fersiwn ddrafft o Orchymyn Senedd Cymru (Anghymhwysu) 2020. Bydd yr ymgynghoriad ar y cynigion hyn ar agor tan 1 Medi 2020. Mae'r manylion ynglŷn â sut i ymateb ar gael yn y ddogfen ymgynghori.

Ar ôl ystyried yr ymatebion a ddaw i law, caiff y Gorchymyn drafft ei ddwyn ymlaen ar gyfer cael cymeradwyaeth gan y Senedd cyn iddo gael ei gyflwyno'n ffurfiol gerbron Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor yn nes ymlaen eleni.

Dymuniadau gorau

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
[YP.PrifWeinidog@llyw.cymru](mailto:YP.PrifWeinidog@llyw.cymru) • [ps.firstminister@gov.wales](mailto:ps.firstminister@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.